Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
Healthcare Inspectorate Wales

# Crynodeb Gwirio Ansawdd
# Charro Dental Practice Ltd
# Dyddiad y gweithgarwch:14 Rhagfyr 2021

Dyddiad cyhoeddi: 18 Ionawr 2022



Gellir darparu'r cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall gan AGIC mewn fformatau neu ieithoedd eraill ar gais. Bydd oediad byr wrth i ieithoedd a fformatau eraill gael eu cynhyrchu pan ofynnir amdanynt i ddiwallu anghenion unigol. Cysylltwch â ni am gymorth.

Pan gânt eu cyhoeddi, bydd copïau o'r holl adroddiadau ar gael ar ein gwefan neu drwy gysylltu â ni:

Yn ysgrifenedig:


Rheolwr Cyfathrebu
Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
Llywodraeth Cymru
Parc Busnes Rhyd-y-car
Merthyr Tudful
CF48 1UZ


Neu drwy


Ffôn: 0300 062 8163

E-bost: agic@llyw.cymru

Gwefan: www.agic.org.uk


ISBN digidol 978-1-80391-593-7

© Hawlfraint y Goron 2022

# Crynodeb Gwirio Ansawdd

## Ein dull gweithredu

Ymgymerodd Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) â gwiriad ansawdd o bell o Bractis Deintyddol Charro fel rhan o'i rhaglen o waith sicrwydd. Mae Practis Deintyddol Charro yn darparu gwasanaethau deintyddol cyffredinol ar gyfer cleifion y GIG a chleifion preifat yn ardal Bwrdd Iechyd Addysgu Powys.

Mae gwiriadau ansawdd AGIC yn rhan o ddull newydd wedi'i deilwra ar gyfer gwaith sicrwydd ac maent yn un o nifer o ffyrdd y mae'n archwilio sut mae gwasanaethau gofal iechyd yn bodloni Safonau Iechyd a Gofal 2015 a Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017. Rhoddir adborth i gynrychiolwyr y gwasanaeth ar ddiwedd y gwiriad ansawdd, mewn ffordd sy'n cynorthwyo dysgu, datblygu a gwelliant ar lefelau gweithredol a strategol.

Ciplun yw gwiriadau ansawdd o'r safonau gofal o fewn gwasanaethau gofal iechyd. Cânt eu cynnal oddi ar y safle'n gyfan gwbl ac maent yn canolbwyntio ar dri maes allweddol: atal a rheoli heintiau, llywodraethu (yn arbennig ynghylch staffio), a'r amgylchedd gofal. Mae'r gwaith yn archwilio trefniadau sydd ar waith i ddiogelu staff a chleifion rhag COVID-19, gan ein galluogi i ddarparu cyngor gwella cyflym a chefnogol ar weithrediad diogel gwasanaethau yn ystod y pandemig. Gellir dod o hyd i ragor o wybodaeth am ein trefniadau sicrwydd a'n dull arolygu yma.

Gwnaethom siarad â'r darparwr cofrestredig, Dr Jimmy Charro, ar 14 Rhagfyr 2021, a roddodd wybodaeth a thystiolaeth i ni am ei wasanaeth. Gwnaethom ddefnyddio'r llinellau ymholi allweddol canlynol:

- Pa newidiadau ydych chi wedi'u gweithredu yng ngoleuni COVID-19 i sicrhau y cynhelir safonau atal a rheoli heintiau?
- Sut ydych yn sicrhau y gall yr holl gleifion (gan gynnwys grwpiau sy'n agored i niwed / mewn perygl) gyrchu gwasanaethau mewn modd priodol a diogel?
- Sut ydych yn diwallu anghenion cleifion Cymraeg wrth ddefnyddio gwasanaethau gofal iechyd trwy gyfrwng y Gymraeg?
- Sut mae'r practis a'r gwasanaethau y mae'n eu darparu wedi addasu yn ystod y cyfnod hwn o COVID-19?
- Sut ydych yn sicrhau bod cydraddoldeb a dull sy'n seiliedig ar hawliau'n cael eu hymgorffori ar draws y gwasanaeth?

## Yr amgylchedd

Yn ystod y gwiriad ansawdd, gwnaethom ystyried sut mae'r gwasanaeth wedi ymateb i'r heriau a gyflwynwyd gan COVID-19 a sut mae'r gwasanaeth wedi dylunio a rheoli'r amgylchedd gofal i'w gadw mor ddiogel â phosib i gleifion, staff ac ymwelwyr.

Roedd y dogfennau allweddol a adolygwyd gennym yn cynnwys y canlynol:

- Yr asesiadau risg / archwiliadau amgylcheddol mwyaf diweddar
- Y Weithdrefn Weithredu Safonol

Gwnaethom hefyd holi cynrychiolydd y gwasanaeth am y newidiadau y mae wedi'u gwneud i sicrhau bod cleifion yn parhau i dderbyn gofal a thriniaeth yn unol â'u hanghenion.

**Cafwyd y dystiolaeth gadarnhaol ganlynol:**

Gwelsom dystiolaeth bod y gwasanaeth wedi diweddaru polisïau a gweithdrefnau perthnasol i fodloni'r gofynion ychwanegol yn sgil y pandemig COVID-19. Fe wnaethom hefyd holi'r darparwr cofrestredig ynglŷn â'r newidiadau a wnaed i'r amgylchedd er mwyn galluogi cleifion i gael eu gweld yn ystod y pandemig COVID-19 ac i leihau'r risg o drosglwyddo COVID-19 yn yr ardaloedd cymunol a'r ystafelloedd triniaeth.

Fe'n hysbyswyd fod amgylchedd y practis, ar ddechrau'r pandemig COVID-19, wedi cael ei asesu i gynorthwyo a gwella gwaith rheoli heintiau. Gostyngodd y practis nifer yr ymwelwyr drwy sicrhau mai dim ond cleifion ag apwyntiadau a drefnwyd ymlaen llaw a allai ymweld â'r practis. Mae cleifion yn mynychu ar eu pen eu hunain, oni bai fod angen gofalwr arnynt. Cytunir ar hyn ymlaen llaw fel bod y practis yn ymwybodol faint o bobl fydd ar y safle ar unrhyw adeg benodol. Pan fydd cleifion yn cyrraedd y practis, maent yn canu cloch drws i gael mynediad. Yn y dderbynfa, roedd sgriniau wedi'u gosod ar ddesg y dderbynfa i warchod staff a chleifion, ac mae parthau wedi'u nodi'n glir i sicrhau y gellir cadw pellter cymdeithasol.

Dywedwyd wrthym fod cyfarpar diogelu personol i staff a chleifion ar gael, ynghyd â gorsafoedd diheintio dwylo, ym mhob rhan o'r adeilad. Roedd amserlenni glanhau wedi cael eu haddasu i alluogi glanhau amlach. Mae cadeiriau yn y man aros yn rhai plastig er mwyn eu glanhau'n rhwydd, ac mae digon o le rhyngddynt. Roedd yr holl eitemau nad oeddent yn hanfodol hefyd wedi'u symud o'r man aros. Mae hysbysiadau perthnasol yn cael eu harddangos mewn mannau amlwg y tu mewn a'r tu allan i'r adeilad yn hysbysu cleifion o'r mesurau presennol sydd ar waith; mae'r rhain yn cael eu diweddaru yn ôl yr angen.

Dywedwyd wrthym fod yna bedair ystafell driniaeth i gyd a bod pob un ohonynt â'r cyfarpar

priodol ar gyfer cyflawni gweithdrefnau sy'n cynhyrchu aerosolau.[1] Mae ffaniau awyru ac echdynnu wedi'u gosod yn yr ystafelloedd triniaeth i hwyluso'r broses o gael gwared ar aer wedi'i halogi, yn ogystal â ffenestri sy'n agor. Mae apwyntiadau wedi'u trefnu i alluogi cyfnod segur[2] digonol ac i alluogi digon o amser i ddiheintio'r ddeintyddfa rhwng cleifion.

Gwnaethom ofyn pa fesurau oedd ar waith i hysbysu cleifion am y gweithdrefnau diogelwch sy'n gysylltiedig â COVID-19. Dywedwyd wrthym fod cleifion yn derbyn asesiad risg yn ystod pob cam ac yr esbonnir y rhesymau dros wneud hynny iddynt. Cyn pob apwyntiad, mae staff yn ffonio'r cleifion ac yn cwblhau holiadur sgrinio COVID-19. Mae'r staff hefyd yn rhoi gwybodaeth i gleifion am eu disgwyliadau wrth iddynt gyrraedd y practis. Mae'r mesurau hyn yn helpu i leihau'r amser y mae claf yn treulio yn y ddeintyddfa.

Pan fydd cleifion yn cyrraedd ar gyfer apwyntiadau, gofynnir iddynt unwaith eto a oes ganddynt unrhyw symptomau COVID-19 a defnyddir thermomedr di-gyffwrdd i gynnal gwiriad tymheredd. Darperir hylif diheintio dwylo wrth fynd i mewn i'r adeilad ac mae'n rhaid gwisgo masgiau wyneb nes bod y claf yn eistedd yng nghadair yr ystafell driniaeth, oni bai ei fod wedi'i eithrio. Os nad oes gan glaf fasg, bydd un yn cael ei ddarparu ar ei gyfer.

Dywedwyd wrthym fod y practis yn trin grŵp poblogaeth amrywiol a'i fod yn gwbl hygyrch i gleifion anabl, gyda rampiau mynediad, mannau parcio i'r anabl, drws mynediad awtomataidd, a thoiledau mynediad i'r anabl â chanllawiau. Mae'r holl ystafelloedd triniaeth wedi'u cyfarparu'n llawn i ddarparu ar gyfer defnyddwyr gwasanaeth sydd â symudedd cyfyngedig. Dywedwyd wrthym fod sawl aelod o staff yn amlieithog, a bod mynediad at wasanaethau dehongli a chyfieithu ar gael o bell drwy Fwrdd Iechyd Addysgu Powys. Fodd bynnag, nid yw'r practis wedi cael unrhyw gleifion sy'n dymuno derbyn eu gofal trwy gyfrwng y Gymraeg, nac mewn ieithoedd eraill, hyd yn hyn.

**Ni nodwyd unrhyw feysydd i'w gwella.**

## Atal a rheoli heintiau

Yn ystod y gwiriad ansawdd, gwnaethom ystyried sut mae'r gwasanaeth wedi ymateb i'r heriau a gyflwynwyd gan COVID-19, a pha mor dda y mae'n rheoli'r risg o heintiau, er mwyn helpu i gadw cleifion, ymwelwyr a staff yn ddiogel.

Roedd y dogfennau allweddol a adolygwyd gennym yn cynnwys y canlynol:

- Copi o archwiliad dihalogi Memorandwm Technegol Iechyd Cymru 01-05 mwyaf diweddar a'r cynllun gweithredu i fynd i'r afael ag unrhyw feysydd i'w gwella

[1] Mae gweithdrefn sy'n cynhyrchu aerosolau yn weithdrefn feddygol a all arwain at ryddhau gronynnau yn yr awyr (aerosolau) o'r system anadlu wrth drin rhywun yr amheuir ei fod, neu ei bod yn hysbys ei fod, yn dioddef o gyfrwng heintus a drosglwyddir yn gyfan gwbl neu'n rhannol trwy'r awyr neu drwy ddefnynnau.
[2] Cyfnod segur yw'r amser segur yn yr ystafell driniaeth ar ôl cynnal gweithdrefn sy'n cynhyrchu aerosolau.

- Polisi COVID-19
- Gwiriadau dyddiol ac wythnosol o’r awtoclaf
- Y polisi atal a rheoli heintiau
- Amserlenni glanhau'r ddeintyddfa
- Gweithdrefn ar gyfer glanhau offer â llaw

**Cafwyd y dystiolaeth gadarnhaol ganlynol:**

Cawsom ddogfennau amrywiol yn ymwneud ag atal a rheoli heintiau. Gwelsom dystiolaeth o amserlenni glanhau’r practis a gweithdrefn ar gyfer dihalogi offerynnau ac offer deintyddol. Cawsom yr archwiliad dihalogi Memorandwm Technegol Iechyd Cymru 01-05 diweddaraf, ynghyd â chamau unioni a nodwyd ar gyfer meysydd yr oedd angen eu gwella. Yn ogystal, cawsom gopïau o'r polisi glanhau, rhestrau gwirio'r ddeintyddfa wedi'u cwblhau, cofnodion glanhau ar gyfer yr awtoclaf, a hefyd y weithdrefn ar gyfer glanhau offerynnau ac offer deintyddol â llaw. Fe'n hysbyswyd bod y practis wedi buddsoddi mewn awtoclaf gwactod Dosbarth B newydd, y mae contract trydydd parti wedi'i sefydlu ar ei gyfer i gynnal gwasanaethau blynyddol a hyfforddiant mewnol i'r holl staff i sicrhau bod yr holl offer a darnau llaw yn cael eu defnyddio, eu glanhau a'u cynnal a'u cadw yn unol â chyfarwyddiadau'r gwneuthurwr.

Dywedwyd wrthym fod systemau ar waith i sicrhau bod yr holl staff yn ymwybodol o'u cyfrifoldebau dros atal a rheoli heintiau, a'u bod yn eu cyflawni. Dywedwyd wrthym fod y practis yn diweddaru ei bolisïau a'i weithdrefnau'n barhaus yn unol â diweddariadau a chyngor gan gyrff allanol, gan gynnwys Prif Swyddog Deintyddol Cymru. Roedd y polisïau a ddarparwyd i'w hadolygu yn gynhwysfawr ac yn unol â'r disgwyliadau.

Fe'n hysbyswyd bod gweithdrefnau sy'n cynhyrchu aerosolau yn dal i gael eu cynnal ac nad yw nifer yr apwyntiadau wedi lleihau'n sylweddol. Mae hyn wedi effeithio'n bennaf ar reoli amser yn y practis er mwyn caniatáu cyfnodau segur digonol rhwng apwyntiadau.

Cadarnhaodd y darparwr cofrestredig fod prosesau ar waith i ddiogelu cleifion a staff pan fydd gweithdrefn sy'n cynhyrchu aerosolau yn cael ei chynnal. Mae galwad brysbennu[3] i'r claf yn helpu i nodi'r offer y bydd eu hangen. Mae hwn yn cael ei baratoi ymlaen llaw er mwyn lleihau’r angen i staff fynd i mewn i'r ystafell driniaeth, neu'i gadael, yn ystod y weithdrefn. Mae nyrs gyfaill yn cael ei defnyddio bellach i lanhau'r ystafell driniaeth ar ôl gweithdrefn sy'n cynhyrchu aerosolau ac i roi cymorth i ymarferwyr sy'n darparu gweithdrefnau sy'n cynhyrchu aerosolau. Mae'n rhaid nodi amseroedd cyfnodau segur yn y dyddiadur bob amser yn dilyn gweithdrefnau sy'n cynhyrchu aerosolau, neu mae’n rhaid rhoi cyfle i glinigwyr newid ystafell driniaeth ar gyfer y claf nesaf. Mae'n rhaid i gleifion ddilyn system un ffordd er mwyn eu hatal rhag gorfod dod ar draws cleifion eraill neu staff. Roedd y broses yn dilyn y canllawiau diweddaraf a gyhoeddwyd gan Brif Swyddog Deintyddol Cymru. Roedd yr holl staff yn cael eu hysbysu am y Weithdrefn Weithredu Safonol a'r canllawiau cysylltiedig trwy

[3] Brysbennu yw'r broses o flaenoriaethu gofal cleifion yn seiliedig ar salwch/anaf, difrifoldeb, rhagolwg ac argaeledd adnoddau.

gyfarfodydd tîm rheolaidd.

Mae'r ddeintyddfa'n gweithredu fel gwasanaeth deintydd brys ar gyfer Bwrdd Iechyd Addysgu Powys, lle gellir atgyfeirio cleifion yn uniongyrchol o'r gwasanaeth 111.[4] Dywedwyd wrthym fod y practis yn gwneud popeth o fewn ei allu i sicrhau y gellir cynnal triniaeth claf yn ddiogel, a gellir pwyso a mesur hyn ar sail risg yn erbyn budd. Fodd bynnag, ni fu unrhyw achlysur eleni pan oedd angen atgyfeirio at wasanaethau eraill. Fe'n hysbyswyd bod y practis yn gwneud pob ymdrech i sicrhau, cyn belled ag y bo'n rhesymol ymarferol, bod risgiau'n cael eu lliniaru er mwyn caniatáu i driniaethau ddigwydd.

Mae cyfarpar diogelu personol ar gael i staff a chleifion, ynghyd â gorsafoedd diheintio dwylo, ym mhob rhan o'r adeilad. Fe'n hysbyswyd bod y staff wedi derbyn yr hyfforddiant diweddaraf ar ddefnyddio cyfarpar diogelu personol uwch, gan gynnwys y dull cywir o wisgo a diosg[5] mewn man dynodedig, a chael gwared ar gyfarpar diogelu personol yn gywir. Dywedwyd wrthym fod y dull a ddefnyddiwyd ar gyfer hyfforddiant yn gymysgedd o sesiynau ar-lein a rhai ymarferol mewnol wyneb yn wyneb. Roedd nodiadau atgoffa gweledol fel posteri yn atgoffa staff o'r defnydd cywir o gyfarpar diogelu personol hefyd yn cael eu harddangos mewn mannau amlwg yn y practis.

Dywedwyd wrthym fod yr holl staff yn gwisgo'r cyfarpar diogelu personol cywir, gan gynnwys masgiau FFP3,[6] gynau, ffedogau a feisorau, wrth drin cleifion. Roedd staff wedi cael eu mesur i sicrhau bod y masgiau FFP3 yn eu ffitio ac roedd y canlyniadau wedi cael eu cofnodi ar gyfer pob aelod o staff. Cadarnhawyd bod yr holl staff wedi derbyn asesiad risg COVID-19 manwl i asesu'r risgiau personol ynghlwm wrth barhau i gyflawni eu rôl yn ystod y pandemig COVID-19. Holwyd staff hefyd ynglŷn â pha mor hyderus oeddent wrth ddefnyddio cyfarpar diogelu personol. Mae cyflenwadau cyfarpar diogelu personol yn cael eu monitro a'u cofnodi gan y nyrs arwain. Gan fod contract ar waith rhwng Bwrdd Iechyd Addysgu Powys a'r practis, i gynnal triniaeth ddeintyddol frys a gwaith echdynnu, mae'r holl gyfarpar diogelu personol yn cael ei gyflenwi drwy'r bwrdd iechyd.

Dywedwyd wrthym fod asesiadau risg yn cael eu cynnal yn ystod pob cam ac, er bod proses sgrinio cleifion cyn cyrraedd ar waith, y byddai cleifion wedyn yn cael eu hailsgrinio ar ôl iddynt gyrraedd y practis. Pe bai claf yn dangos symptomau COVID-19, cadarnhaodd y darparwr cofrestredig y byddai'r staff yn gofyn i'r claf, os nad oedd yn achos brys, aildrefnu ei apwyntiad ac y byddent yn darparu cyngor os oedd y claf mewn poen.

**Ni nodwyd unrhyw feysydd i'w gwella.**

[4] Mae 111 yn wasanaeth ffôn ar gyfer achosion nad ydynt yn rhai brys a ddarperir gan y GIG. Dyma'r rhif i'w ffonio pan fydd angen cyngor neu driniaeth feddygol ar unigolyn yn gyflym (sefyllfaoedd nad ydynt yn peryglu bywyd), na all aros am apwyntiad â'i feddyg arferol.

[5] Gwisgo – gwisgo cyfarpar diogelu personol; diosg – tynnu cyfarpar diogelu personol.

[6] Mae anadlyddion FFP3 wedi'u dylunio i amddiffyn y gwisgwr rhag anadlu gronynnau bach yn yr aer a allai gynnwys feirysau.

## Llywodraethu / Staffio

Fel rhan o'r safon hon, gwnaeth AGIC holi cynrychiolwyr y gwasanaeth ynghylch sut, yng ngoleuni effaith COVID-19, maent wedi addasu eu gwasanaeth.

Roedd y dogfennau allweddol a adolygwyd gennym yn cynnwys y canlynol:

- Datganiad o ddiben[7]
- Taflen wybodaeth i gleifion[8]
- Archwiliad Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Cysylltiad Meddygol)
- Archwiliad cardiau cofnod
- Polisïau/gweithdrefnau cydsyniad gwybodus
- Polisi COVID-19
- Cynllun parhad busnes
- Cofnodion hyfforddiant gorfodol i'r holl staff
- Adroddiad blynyddol a baratowyd o dan Reoliad 16(3) o Reoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017

**Cafwyd y dystiolaeth gadarnhaol ganlynol:**

Dywedwyd wrthym fod y practis wedi cau i gleifion am gyfnod byr ar ddechrau'r pandemig, ac am gyfnod byr iawn ym mis Rhagfyr 2020, ond mae wedi gweithredu dros chwe diwrnod yr wythnos ar bob adeg arall. Roedd y darparwr cofrestredig yn canmol y staff yn fawr iawn, gan ein hysbysu bod yr holl staff wedi addasu'n dda i'r newidiadau a'r canllawiau COVID-19 newydd, er gwaethaf yr heriau a grëwyd gan y pandemig ac oriau gwaith hirach.

Gwnaethom adolygu'r datganiad o ddiben[9] a'r daflen wybodaeth i gleifion,[10] a oedd yn cynnwys gwybodaeth berthnasol am y gwasanaethau a gynigir. Fe'n hysbyswyd bod y datganiad o ddiben yn cael ei adolygu'n flynyddol, a bod yr adolygiad hwnnw newydd gael ei gynnal. Gwelsom sampl o bolisïau a gweithdrefnau sydd ar waith hefyd. Roedd y rhai a ddarparwyd yn gynhwysfawr ac yn ddigonol ar gyfer eu pwrpas bwriadedig. Cadarnhaodd y darparwr cofrestredig fod gan staff y practis fynediad at yr holl bolisïau a gweithdrefnau sydd ar waith.

Gwelsom ddogfen ar gyfer parhad busnes hefyd, ac roedd hon yn fanwl iawn ac, yn ôl pob

[7] Mae'r datganiad o ddiben yn cynnwys yr holl wybodaeth sy'n ofynnol yn unol ag Atodlen 1 i'r Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru). Mae hyn yn cynnwys nodau ac amcanion y practis ac enwau a chymwysterau'r deintyddion a'r staff deintyddol. Yn ogystal â hyn, dylai restru'r mathau o driniaeth, y cyfleusterau a'r holl wasanaethau eraill a ddarperir yn y practis deintyddol preifat, neu at ddibenion y practis, gan gynnwys manylion ynglŷn â'r ystod o anghenion y bwriedir i'r gwasanaethau hynny eu diwallu.
[8] Mae'r daflen wybodaeth i gleifion yn cael ei rhoi i gleifion ac yn cynnwys y wybodaeth sy'n ofynnol gan Atodlen 2 i'r rheoliadau uchod. Roedd y wybodaeth yn cynnwys crynodeb o'r datganiad o ddiben, trefniadau ynghylch casglu barn cleifion, mynediad i'r adeilad, a chadw apwyntiadau.
[9] Ystyr "datganiad o ddiben" ("*statement of purpose*") yw'r datganiad sy'n cael ei lunio yn unol â Rheoliad 5(1) o Reoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017 ac Atodlen 1.
[10] Gwybodaeth sy'n ofynnol gan Atodlen 2 o'r rheoliadau uchod.

golwg, yn ymdrin yn briodol â'r rhan fwyaf o ddigwyddiadau posibl. Dywedwyd wrthym, er nad yw'r practis yn defnyddio staff asiantaeth ar hyn o bryd, bod dau ddeintydd locwm[11] ar gael i gyflenwi mewn unrhyw achosion o salwch, a bod nyrsys asiantaeth ar gael pe bai eu hangen erioed.

Dywedwyd wrthym fod y practis yn ymdrechu'n barhaus i wella'r gwasanaeth a ddarperir i gleifion. Cafwyd tystiolaeth o hyn yn y ddogfennaeth archwilio a ddarparwyd gyda'r hunanasesiad, a oedd yn cynnwys archwiliad cardiau cofnod ac archwiliad dihalogi Memorandwm Technegol Iechyd Cymru 01-05. Darparwyd copi o'r archwiliad diweddaraf o dan y Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Cysylltiad Meddygol) fel tystiolaeth. Roedd hyn yn dangos cywirdeb 100% heb fod angen ail-wneud unrhyw weithdrefnau.

Gwelsom dystiolaeth o gofnodion hyfforddi, a oedd yn dangos cydymffurfedd â hyfforddiant gorfodol. Dywedwyd wrthym fod gan bob aelod o staff fynediad at system ar-lein sy'n dangos i unigolion pa hyfforddiant y mae angen iddynt ei gwblhau. Esboniodd y darparwr cofrestredig y broses ar gyfer sicrhau bod hyfforddiant yn gyfredol, gyda staff yn parhau i ddefnyddio pecynnau e-ddysgu[12] ar gyfer datblygiad proffesiynol parhaus, yn ogystal â chyrsiau prifysgol sy'n cael eu cyflawni gan nyrsys dan hyfforddiant.

Eglurwyd y broses o wirio offer a meddyginiaethau a ddefnyddir mewn achos brys. Dywedwyd wrthym fod yr offer brys a'r meddyginiaethau brys yn cael eu gwirio'n ddyddiol gan aelod penodol o staff, ac yn fwy diweddar yn cael eu cymeradwyo gan hyd at ddau aelod o staff. Cedwid y cyffuriau a’r cyfarpar ar gyfer argyfyngau mewn lleoliad diogel ond sy'n hawdd ei gyrraedd i sicrhau eu bod ar gael yn rhwydd mewn argyfwng. Roedd y gwiriad hwn yn cynnwys dyddiadau dod i ben ar yr holl offer a meddyginiaethau brys, gan gynnwys y diffibriliwr a'r padiau diffibrilio. Yn ddiweddar, prynwyd ail silindr ocsigen ar gyfer y practis.

Mae'r practis wedi cynnal ei brosesau ar gyfer adrodd am unrhyw ddigwyddiadau, gyda'r darparwr cofrestredig yn goruchwylio unrhyw ddigwyddiadau. Dywedwyd wrthym fod staff yn ymwybodol o'u rolau a'u cyfrifoldebau wrth adrodd am ddigwyddiadau i asiantaethau rheoleiddiol, gan gynnwys Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC). Roedd unrhyw ganllawiau wedi'u diweddaru ar gyfer gweithwyr gofal iechyd proffesiynol yn cael eu rhannu mewn cyfarfodydd staff rheolaidd a galwadau fideo.

**Nodwyd y meysydd canlynol i'w gwella:**

Fel rhan o'r broses gwirio ansawdd, adolygodd AGIC yr archwiliad cardiau cofnod a gynhaliwyd gan y practis. Roedd hyn yn gadarnhaol ar y cyfan, ond nododd y lleoliad nad oedd cyngor ar roi'r gorau i ysmygu bob amser yn cael ei roi. Roedd y lleoliad eisoes wedi nodi cam gweithredu i wella hyn, gyda mwy o daflenni eisoes wedi'u harchebu gan y practis.

Rhaid i'r darparwr cofrestredig sicrhau bod cyngor hybu iechyd / addysg cynhwysfawr yn cael ei ddarparu i bob claf a'i ddogfennu'n briodol.

---

[11] Unigolyn sy'n cyflenwi dros dro am rywun arall o'r un proffesiwn, yn enwedig meddyg.
[12] Dysgu a gynhelir trwy gyfryngau electronig, yn nodweddiadol ar y rhyngrwyd.

# Beth nesaf?

Lle rydym wedi nodi meysydd i'w gwella yn ystod ein gwiriad ansawdd a lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth ddweud wrthym am y camau a gymerwyd i fynd i'r afael â'r rhain, darperir cynllun gwella yn rhoi manylion ar ddiwedd y crynodeb gwirio ansawdd hwn.

Lle mae angen cynllun gwella, dylai wneud y canlynol:

- Sicrhau bod y camau a gymerir mewn ymateb i'r materion a nodwyd yn benodol, yn fesuradwy, yn gyflawnadwy, yn realistig ac wedi'u hamseru
- Cynnwys digon o fanylion er mwyn rhoi sicrwydd i AGIC a'r cyhoedd y bydd y meysydd i'w gwella a nodwyd yn cael sylw digonol
- Sicrhau bod tystiolaeth ofynnol yn erbyn camau a nodwyd yn cael ei rhoi i AGIC o fewn tri mis i'r gwiriad ansawdd

O ganlyniad i ganfyddiadau'r gwiriad ansawdd hwn, dylai'r gwasanaeth:

- Sicrhau nad yw'r meysydd i'w gwella yn systemig ar draws meysydd eraill yn y sefydliad ehangach
- Rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i AGIC pan fydd camau yn dal i fod heb eu cymryd a/neu ar y gweill, i gadarnhau pan fydd y rhain wedi cael sylw

Pan gytunir ar y cynllun gwella, caiff ei gyhoeddi ar wefan AGIC.

Os na nodwyd unrhyw feysydd i'w gwella yn ystod y gwiriad ansawdd hwn, ni fydd angen cynllun gwella, a dim ond yr adroddiad cryno ar y gwiriad ansawdd fydd yn cael ei gyhoeddi ar wefan AGIC.

# Cynllun gwella

**Lleoliad:** Charro Dental Practice Ltd

**Dyddiad y gweithgarwch:** 14 Rhagfyr 2021

Mae'r tabl isod yn cynnwys gwelliannau a nodwyd yn ystod y gwiriad ansawdd y mae’n ofynnol i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella yn eu cylch sy'n dweud wrthym am y camau y mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn.

Sylwer, disgwylir i’r holl gamau gweithredu gael eu cwblhau o fewn tri mis i'r gwiriad ansawdd a dylid cyflwyno fersiwn derfynol o'r cynllun gwella drwy Objective Connect ar ôl iddo gael ei gwblhau.

| Cyfeirnod | Yr hyn y mae angen ei wella | Safon / Rheoliad | Camau gweithredu'r gwasanaeth | Swyddog cyfrifol | Amserlen |
|---|---|---|---|---|---|
| 1 | Rhaid i'r darparwr cofrestredig sicrhau bod cyngor hybu iechyd / addysg cynhwysfawr yn cael ei ddarparu i bob claf a'i ddogfennu'n briodol. | Rheoliad 9 (a) o Reoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017 | Mae taflenni cyngor ar roi’r gorau i ysmygu wedi’u harchebu gan y Bwrdd Iechyd Lleol, ac rydym yn aros i’w dosbarthu ar hyn o bryd. Bydd yr holl staff yn cael eu hyfforddi ar ddarparu cyngor ar roi’r gorau i ysmygu a dogfennu hyn yng nghofnodion deintyddol cleifion. Bydd hanes ysmygu yn cael ei ymgorffori yn y broses sgrinio cleifion pan fyddant yn cyrraedd (wrth gwblhau ffurflenni ACORN), a hefyd yn ystod archwiliadau deintyddol. | Dr Jimmy Charro (Prif Ddeintydd / Rheolwr y Practis / Perchennog y Practis) | Mae hwn eisoes wedi cael ei roi ar waith ar unwaith; yn aros i'r taflenni gyrraedd. I'w gwblhau erbyn 1/03/22 fan bellaf. |

Rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd y gwasanaeth sydd â'r cyfrifoldeb ac atebolrwydd cyffredinol am sicrhau bod y cynllun

gwella yn cael ei roi ar waith.

| | |
|---|---|
| Enw: | Dr Jimmy Charro |
| Dyddiad: | 24 Rhagfyr 2022 |